



Cyfres ar Weddi

6 Gwasanaeth ar gyfer Ysgolion Cynradd

Adnoddau Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid
Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Owain Edwards

Ionawr 2011



Cyfres ar Weddi

1: Cyflwyniad i Weddi

Nod

Cyflwyno gweddi fel ffordd naturiol o siarad â Duw; esbonio bod Duw ar gael i ni weddi arno bob amser yn unrhyw le.

Bydd angen

- Llund o Alexander Graham Bell (oddi ar y we)
- Llund o'r ffôn cyntaf (oddi ar y we)
- Ffôn symudol
- Llyfr 'Tyrd i Ddathlu', rhif 7, "Gweddi sydd fel codi ffôn"

1. Darlleniad:

Mathew 6: 5 - 8

'A pheidiwch â gweddi fel y rhai sy'n gwneud sioe o'u crefydd. Maen nhw wrth eu boddau pan fydd pobl yn edrych arnyn nhw yn codi i weddi yn y synagogau neu ar strydoedd prysur. Credwch chi fi, dyna'r unig wobwr gân nhw! Pan fyddi di'n gweddi, dos i ystafell o'r golwg, cau y drws, a gweddi ar dy Dad sydd yno gyda ti er nad wyt ti'n yn ei weld e. Wedyn bydd dy Dad, sy'n gweld pob cyfrinach, yn rhoi dy wobwr i ti. A phan fyddwch chi'n gweddi, peidiwch â mwyrdo ymlaen yn ddiwedd fel mae'r paganiaid yn gwneud. Maen nhw'n meddwl y bydd Duw yn gwrando am eu bod yn gweddi mor hir. Peidiwch chi â bod fel yna. Mae'ch Tad chi'n gwybod yn union beth sydd ei angen arnoch chi cyn i chi ddweud gair.'

(Beibl.net)

2. Cyflwyniad

- Dangos llun Alexander Graham Bell dyfeisydd y ffôn.
- Gofyn i'r plant, "Pwy ydi'r dyn yma?"
- Dangos llun y ffôn cyntaf a gafodd ei ddyfeisio fel cliw.
- Sôn am sut mae'r ffôn wedi datblygu ac wedi newid.
- Dangos ffôn symudol...sôn am bopeth mae ffôn yn gallu ei wneud rwan e.e. gemau, camera, neges

testun, cerddoriaeth.

- Ond prif pwrpas ffôn ydi beth? Siarad!
- Erbyn heddiw gallwch chi siarad ag unrhyw un, yn unrhyw le oherwydd ffôn symudol.
- Gofyn "Pwy ydyn ni'n ffonio?" Mam a Dad, ffrindiau...
- Dweud ei bod hi'n dda clywed llais pobl yr ydyn ni'n eu nabod, yn dda gallu siarad am broblemau neu gofyn am help, neu dim ond rhoi'r byd yn ei le.

3. Edrych ar y Beibl

- Pe baech chi'n cael dewis siarad ag unrhyw un yn y byd, pwy fuasech chi'n ddewis? E.e. Ryan Giggs, Cheryl Cole.
- Ond wyddoch chi fod y Beibl yn dweud fod yna rywun sy'n bwysicach na'r bobl yna i gyd eisiau siarad â ni? Pwy? Duw sydd eisiau siarad â ni, ac eisiau i ni siarad ag Ef!
- Sut allwn ni siarad â Duw? Oes gan Dduw ei linell ffôn ei hun? Na ... trwy weddi gallwn ni siarad â Duw.
- Yn ystod y tymor yma rydyn ni'n mynd i edrych ar weddi gyda'n gilydd er mwyn i ni gael dysgu mwy am sut i weddi.
- Rydyn ni'n gallu siarad â Duw trwy weddi oherwydd bod Duw eisiau bod yn ffrind i ni.
- Gofyn "Beth yw enw eich ffrindiau gorau?" Cael enwau y plant.
- Pe bai ffrind A yn mynd trwy'r dydd yn yr ysgol heb ddweud gair wrth ffrind B, ydych chi'n meddwl y buasai ffrind B yn hapus?
- Mae ffrindiau da yn siarad â'i gilydd yn aml ac yn dweud sut maen nhw'n teimlo. Maen nhw'n rhannu problemau ac yn gwrando ar ei gilydd. Dyna sut mae Duw eisiau bod gyda ni. Mae arno eisiau bod yn ffrind da i ni, ac eisiau i ni siarad ag Ef.
- Pan fyddwn ni'n siarad â'n ffrindiau, ydyn ni'n defnyddio geiriau mawr crand?
- Dywedodd Iesu fod rhai pobl yn trio edrych

yn dda, a phan oedden nhw'n gweddïo ar Dduw roedden nhw yn trio dweud geiriau mawr a gweddïo am hir, hir iawn. Ond dydi Duw ddim yn hoffi gweddïau fel yna.

- Os ydi Duw yn ffrind i ni, yna gallwn ni siarad â Duw fel ffrind: siarad yn syml, dweud beth sydd ar ein meddyliau, a bod yn onest.

- Does dim angen trio bod yn grand a dweud geiriau mawr wrth siarad â Duw.

- **Ble'r** ydych chi'n meddwl ydi'r lle gorau i weddïo? (Capel, Eglwys, gwasanaeth, cyn bwyd...) **Unrhyw le.**

- Mae Duw eisïau clywed beth sydd gennym ni i'w ddweud beth bynnag fyddwn ni'n ei wneud: os byddwn yn chwarae pêl-droed gyda'n ffrindïau, yn yr ysgol, yn y car ar y ffordd i rywle – does yna unman anghywir i weddïo. Mae Duw wastad eisïau clywed gennym ni, ac mae wrth ei fodd pan fyddwn ni'n siarad ag Ef.

- **Pryd** ydi'r adeg orau i weddïo? (gyda'r nos cyn gwely...) **Unrhyw bryd.**

- Mae Duw eisïau i ni siarad ag Ef os ydyn ni'n hapus, neu'n drist, neu wedi bod yn gas, neu wedi bod yn dda. Does yna byth amser anghywir i siarad â Duw. Dydi Duw byth yn rhy brysur i siarad â ni ac mae'n gwrando ar bob gweddi.

4. Cloi

- Felly mae Duw eisïau bod yn ffrind i ni! Ac fel ffrind da mae eisïau i ni siarad ag Ef, mae'n gwrando bob tro byddwn ni'n gweddïo, ac wrth ei fodd!

- Dydyn ni ddim yn gorfod dweud geiriau mawr na thrio dangos ein hunain wrth weddïo, oherwydd dydi hynny ddim yn plesio Duw.

- Gallwn ni weddïo ar Dduw unrhyw bryd ac yn unrhyw le, sut bynnag rydyn ni'n teimlo, neu beth bynnag rydyn ni wedi ei wneud! Duw ydi'r ffrind gorau, mae o wastad yna i ni, ac yn gwrando ar ein gweddïau bob amser.

5. Cân

'Gweddi sydd fel codi ffôn' (Llyfr Tyrd i Ddathlu, Rhif 7)

6. Gweddi

“Diolch Dduw dy fod Ti eisïau bod yn ffrind da i ni. Diolch ein bod ni'n gallu siarad â Ti pryd bynnag rydyn ni eisïau, beth bynnag rydyn ni'n ei wneud. Diolch dy fod Ti wastad yn gwrando ac eisïau'r gorau i ni. Amen.”

Nod

Cyflwyno “Gweddi'r Arglwydd” fel y ffordd y dysgodd Iesu i'w ddisgyblion sut i siarad â Duw: bod eisiau ei barchu, ond ei fod yn gwrando fel Tad.

Bydd angen

- Llyfr ‘Tyrd i Ddathlu’, rhif 25, “O! tyrd i ddathlu ‘nawr’”

1. Darlleniad:

Mathew 6 adnod 9- 14

‘Dyma sut y dylech chi weddio: “Ein Tad sydd yn y nefoedd, dyn ni eisiau i dy enw di gael ei anrhydeddu...”’

(*beibl.net*)

2. Cyflwyniad

- Gofyn i'r plant, “Pwy sy'n cael gwersi cerddoriaeth?” (piano, telyn, recorder?)
- Gofyn, “Pam rydych chi'n cael gwersi?” (i allu chwarae'n well, er mwyn datblygu sgil...)
- Gofyn iddynt, “Beth sy'n gwneud athro da?” (rhywun profiadol, arbenigol, amyneddgar...)
- Gofyn, “Pe baech yn cael dewis unrhyw un i'ch dysgu chi i chwarae (e.e. telyn, piano, pêl-droed) pwy fyddai'r person gorau? e.e. Catrin Finch – telyn, Ryan Giggs – pêl-droed.
- Yna gofynnwch “Pwy fyddai'r person gorau i'n dysgu ni i weddio?” (Gweinidog, ffrind, Athro) neu Iesu? Pwy allai fod yn well na Iesu i'n dysgu i weddio!
- Heddiw rydyn ni am edrych ar ran o'r Beibl ble mae Iesu'n dysgu llawer o bobl sut i weddio, felly rydyn ni am gael yr ‘hyfforddwr’ gorau i'n dysgu ni sut i weddio, Iesu Grist!
- Pwy all ddyfalu pa weddi rydyn ni'n sôn amdani? (Gweddi'r Arglwydd)

Rydyn ni'n dweud y weddi hon yn aml yn yr ysgol ac mae'r geiriau'n gyfarwydd. Ond a ydyn ni wedi cymryd amser i feddwl beth yw ystyr y geiriau? Yn

aml iawn rydyn ni'n dweud y weddi fel trê (gallwch ddynwared hyn gan adrodd Gweddi'r Arglwydd yn gyflym), neu fel ein bod wedi ei dysgu ar gyfer yr Eisteddfod!

Esboniwch nad dyma oedd pwrpas y weddi, sef i bobl ei hailadrodd fel robot, ond enghraifft oedd hon i ddysgu pobl sut i weddio.

3. Rhan 1 – “Ein Tad”

Pan ddechreuodd Iesu y weddi trwy ddweud “Ein Tad” roedd y bobl yn methu deall. Roedden nhw wedi arfer clywed pobl yn sôn am Dduw fel Duw ar wahân a phell, ond roedd Iesu yn ei ddisgrifio fel Tad i ni!

- Gofynnwch i rai o'r plant pa waith mae eu tadau yn ei wneud?

Esboniwch fod y Beibl yn dweud mai Duw yw creawdwr y byd, yr un sydd wedi creu popeth, ond mae o'n dal eisiau i ni ei alw yn Dad!

- Gofynnwch i'r plant pwy sy'n mynd adref o'r ysgol a dweud “Fy Nhad, os gwelwch yn dda a gaf i frechdan” (mewn acen grand!) NEB!

• Pan ddefnyddiodd Iesu y gair “Tad” yn ei iaith o, defnyddiodd y gair “Abba” (nid grŵp pop o Sweden!) sydd yn golygu “Dadi”. Felly y peth cyntaf mae Iesu yn ein dysgu yw ein bod yn gweddio, nid ar Dad pell, ond Dadi agos sydd eisiau bod yn rhan o'n bywydau ni. Ac, felly, mae eisiau i ni sgwrsio gydag Ef fel y byddwn ni'n sgwrsio gyda'n teulu a'n ffrindiau.

• Pan fyddwch chi'n dod adre o'r ysgol ac mae Mam neu Dad yn gofyn - “Beth wnest ti yn yr ysgol heddiw?”, yr ateb yn aml ydi, “Dim byd”! Ydi hynny'n gwneud Dad neu Mam yn hapus? - Na! Pam? Am eu bod nhw eisiau clywed sut ddiwrnod gawsoch chi. Maen nhw wrth eu bodd yn eich clywed chi'n siarad â nhw. Ond mae Duw - ein Dadi nefol - eisiau ein clywed ni'n siarad ag Ef gymaint mwy.

4. Rhan 2 – “sancteiddier dy enw” / “rydyn ni eisiau i dy enw di gael ei anrhydeddu”

- Gofyn a oes un o'r plant yn deall y cymal yma (mwy na thebyg na fyddant).

Esbonio fod beibl.net yn gyfieithiad haws i'w ddeall o'r Beibl ac yn cyflwyno yr adnod yma fel: “rydyn ni eisiau i dy enw di gael ei anrhydeddu”. Beth yw ystyr y gair anrhydeddu? Parchu yw gair arall amdano.

Yn aml iawn rydyn ni'n clywed enw Duw ar y teledu neu ar y cae chwarae ond ydi ei enw'n cael ei barchu? Na! Mae enw Duw yn cael ei ddefnyddio fel rheg e.e. “Oh my God”, neu “Iesu Grist”. (Mae'n werth dyfynnu esiamplau am nad yw llawer o'r plant yn sylwi beth maen nhw'n ei ddweud, a'i fod yn rheg).

- (Defnyddiwch enwau rhai o'r plant yn yr eglureb canlynol.)

Mae Bob a Jim yn ffrindiau da, yn chwarae efo'i gilydd, yn helpu ei gilydd ac yn rhannu eu fferins! Ond un diwrnod mae Bob yn mynd at John a dweud pa mor ddiflas ydi Jim, ac yn dechrau siarad yn gas amdano. Fel mae Bob yn dweud hyn, mae Jim yn cyrraedd y drws a chlywed popeth! Sut ydych chi'n meddwl mae Jim yn teimlo? (trist, digalon, wedi ei siomi....)

Mewn ffordd debyg, mae Duw yn ddigalon ac yn cael ei siomi pan fydd pobl yn defnyddio ei enw fel rheg. Ond mae parchu enw Duw yn golygu mwy na pheidio â defnyddio ei enw fel rheg yn unig.

- Gofynnwch i'r plant “Pan fyddwch chi'n mynd ar drip ysgol, ydi'r athrawon yn dweud rhywbeth wrthyich chi cyn gadael? Dwi'n siŵr fod (enw Athro/Athrawes) yn eich rhybuddio eich bod yn gwisgo gwisg yr ysgol ac felly yn cynrychioli yr ysgol ble bynnag fyddwch yn mynd, ac felly bod angen bihafio er mwyn cadw enw da yr Ysgol!

Ond beth petai'r athrawon yn eich gadael chi am bum munud, a'ch bod i gyd yn dechrau taflu bwyd, tynnu gwallt, gweiddi ac ymladd? Beth petai pobl yn cerdded heibio a gweld bathodyn yr ysgol? Dwi'n siŵr y buasen nhw'n meddwl “Pwy yn y byd ydi'r plant drwg yma o Ysgol _____, mae'n rhaid fod yr athrawon yna yn warthus, ac yn methu cadw rheolaeth ar eu plant, ysgol sâl iawn!”

Os yw rhywun yn dewis dilyn Iesu, a bod yn Gristion - mae fel petai'n gwisgo gwisg ysgol Iesu a'i fathodyn ef arno. Rydyn ni fel petaen ni'n cynrychioli Iesu yn y byd, ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud ac yn ceisio byw i blesio Duw ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud, yn yr ysgol, gartref, yn chwarae efo ffrindiau, neu beth bynnag a wnawn. Dyna sut mae anrhydeddu/ sancteiddio enw Duw.

5. Cân

‘O! tyrd i Ddathlu ’nawr’ (Llyfr Tyrd i Ddathlu, Rhif 25)

6. Gweddi

Arweiniwch bawb i adrodd “Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw” yna cloi mewn gweddi:

“Diolch Dduw dy fod Ti'n Dduw sydd hefyd yn Dadi i ni ac yn caru pob un ohonon ni, ac eisiau dod i adnabod pob un ohonon ni. Helpa ni Dduw i barchu dy Enw di ym mhob peth yr ydyn ni'n ei wneud, ei ddweud a'i feddwl. Amen.”

Nod

Cyflwyno'r ffaith fod y Beibl yn dweud fod Duw yn frenin a bod Cristnogion eisiau gwneud ei ewyllys.

Bydd angen

- Y geiriau "Teyrnas" neu "Teyrnasu", "Ewyllys" ar gerdyn (neu Powerpoint)
- Llun o'r Frenhines
- Maneg
- Llyfr 'Tyrd i Ddathlu', rhif 5, "Crea ynof galon lân"

1. Darlleniad:

Mathew 6 adnod 10

'Deled dy deyrnas, gwneled dy ewyllys yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.'

(BCN)

'Rydyn ni eisiau i ti ddod i deyrnasu, ac i'r cwbl sy'n dda yn dy olwg di ddigwydd yma ar y ddaear fel mae'n digwydd yn y nefoedd.'

(beibl.net)

2. Cyflwyniad ac esbonio'r geiriau:

- Gofyn i'r plant a ydyn nhw yn cofio i ba ran o weddi'r Arglwydd rydyn ni wedi cyrraedd.
- Gofyn a ydyn nhw'n gwybod beth mae'r gair "Teyrnas/ Teyrnasu" yn ei olygu (dangos y gair ar gerdyn/ neu PowerPoint).
- Dangoswch lun o'r Frenhines. Teyrnas ydi lle mae Brenhines neu Frenin yn rheoli, ble mae nhw yn cael dweud beth sy'n digwydd. Mae pobl y deyrnas yn gwrandao ar yr un sy'n rheoli neu'n "teyrnasu" ac yn gwneud beth maen nhw yn ei ddweud.
- Dangoswch y gair "Ewyllys" a gofynnwch a ydi'r plant yn gwybod ei ystyr? Eglurwch mai ewyllys ydi rhywbeth mae rhywun eisiau iddo ddigwydd e.e.

> Os yw athrawes ar ddiwedd y dydd yn gweld y dosbarth yn flêr, ei hewyllys hi ydi i'r plant glirio'r ystafell neu

> Os ydych chi'n cefnogi Man Utd, pan fo Man Utd yn chwarae eich ewyllys chi ydi i'r tîm ennill pob gêm!

- Felly beth mae'r rhan yma o'r weddi yn ei olygu?

3. Edrych yn y Beibl

- Ar ddechrau'r Beibl rydyn ni'n darllen fel y creodd Duw y byd, a gwneud job dda iawn ohoni fel mae'r adnod yma yn ddangos.

Genesis 1:31 'Gwelodd Duw'r cwbl a wnaeth, ac yr oedd yn dda iawn.'

Roedd Duw wedi creu'r byd yn berffaith. Roedd Duw yn teyrnasu yno a'i ewyllys yn cael ei gwneud.

- Gofyn: "Ai dyma fel mae ein byd ni rwan?" Mae yna lawer o bethau da yn ein byd ni heddiw, ond mae yna bethau trist yn digwydd e.e. pobl yn gas gyda'i gilydd, pobl yn newynu, pobl yn sâl. Tydi pobl yn y byd ddim yn dda iawn am wrando ar Dduw, tydyn nhw ddim yn gwneud ei ewyllys. Tybed ydyn ni'n gwneud beth mae Duw eisiau i ni wneud?

- Gofyn: "Sut fedrwn ni ei wneud yn well?" Beth am ailgylchu, rhoi arian i bobl dlawd, peidio â bod yn gas ond yn garedig?

- Ydi hynny yn hawdd? Dychmygwch ddeffro yn y bore yn benderfynol o fod yn dda. Rydych yn codi'n hapus, yn gwrandao ar Mam a Dad, ac yn bod yn neis wrth eich brawd a'ch chwaer ayyb. Tybed am faint fuasai hyn yn para? 10 munud, awr?

- Yn y Beibl, mae'n dweud fod Duw eisiau i ni ei barchu Ef a pharchu ein gilydd. Dydi hi ddim bob amser yn hawdd gwneud hyn ond mae'r Beibl yn dweud nad oes rhaid gwneud hyn i gyd ar ein pen ein hun.

4. Eglureb

Eglurwch eich bod yn mynd i wneud tric anhygoel gyda maneg.

Rhowch faneg ar y llawr.

Dwedwch wrth y plant bod y faneg yma'n arbennig – mae'n gallu gwneud pethau ar ei phen ei hun!

Dwedwch wrth y faneg am godi oddi ar y llawr a mynd ar ben un o'r disgyblion (gofyn i blentyn ddod i sefyll yn y tu blaen).

Gofyn i'r plant i gyd i weiddi i hybu'r faneg i symud. Gofyn i bawb fod yn dawel er mwyn i'r faneg allu canolbwyntio.

Gofyn i'r plant gau eu llygaid a meddwl yn galed am y faneg. Wrth iddynt wneud hyn, gwisgwch y faneg a'i rhoi ar ben y plentyn!

Gofynnwch i'r plant agor eu llygaid, yna gofynnwch iddyn nhw a oedden nhw yn meddwl ei fod yn dric da?!!

Ymddiheurwch ei fod yn dric sâl iawn.

- Eglurwch nad yw'r faneg byth am symud go iawn nac am wneud dim heb law y tu fewn iddi.

Yn yr un ffordd, mae hi'n anodd i ni drïo gwneud ein byd yn lle gwell heb help Duw. Dyna pam mae Iesu yn ein dysgu yn y rhan yma o'r weddi i ofyn am help i wneud ewyllys Duw.

5. Cloi

- Yn y rhan yma o'r weddi, rydyn ni'n gofyn i Dduw ddod i fod yn "boss" ar ein bywydau ni, fel y gallwn ni wneud gwahaniaeth a gwneud pethau da fel Iesu.
- Fe greodd Duw fyd perffaith i ni ei fwynhau ond wrth i bobl wneud pethau anghywir mae byd perffaith Dduw wedi ei sbwylio.
- Ond os ydyn ni'n trio bod fel Iesu ac yn gofyn i Dduw ein helpu, fel y llaw yn y faneg, yna byddwn yn gwneud pethau yn wahanol am ein bod yn eu gweld fel mae Duw yn eu gweld nhw. Byddwn ni'n eu gwneud fel mae pethau i fod yn nheyrnas Duw.

6. Cân

"Crea ynof galon lân" (Tyrd i Ddathlu, 5)

7. Gweddi

"Diolch Dduw am greu byd perffaith. Diolch am ein creu ni i fod yn rhan o'r byd yma. Helpa fi i wrando arnat Ti ac i ddod i dy adnabod Di'n well. Mae'n ddrwg gen i mod i'n gwneud pethau yn anghywir ac yn dy wneud Di'n drist, plis maddau i mi. Bydd gyda fi ym mhopeth dwi'n ei wneud. Pan fydda i'n chwarae gyda ffrindiau, gartref gyda'r teulu ac ym mhob peth helpa fi i fyw yn debycach i Iesu. Amen."

Nod

Cyflwyno'r ffaith fod Cristnogion yn credu bod Duw yn gofalu amdanom ac yn rhoi yr hyn y mae arnom ei angen, a bod Gweddi'r Arglwydd hefyd yn ein hatgoffa i feddwl am anghenion pobl eraill.

Bydd angen

- Llundiau pasta, reis, tatws (yn cynnwys sglodion!), bara (oddi ar y we)
- Llundiau o blant anghenus – newynog, heb ddŵr glân (oddi ar y we)
- Llyfr 'Y Cyntaf a'r Olaf', rhif 21, "Mae fy Nuw gyda fi"

1. Darlleniad:

Mathew 6 adnod 11

"Dyros i ni heddiw ein bara beunyddiol"
(BCN)

"Rho i ni ddigon o fwyd i'n cadw ni'n fyw am heddiw"
(*beibl.net*)

2. Cyflwyniad

- Dangoswch luniau o pasta, reis, tatws (yn cynnwys sglodion), bara. Wrth eu dangos gofynnwch i'r plant "Pwy sy'n hoffi.....?"
- Gofynnwch iddyn nhw ddewis un o'r rhestr. Dangoswch y lluniau eto a gofynnwch iddyn nhw bleidleisio dros eu ffefryn.
- Dywedwch mor braf ydi hi arnon ni yn cael digonedd o fwydydd gwahanol, ond yn amser yr Iesu, bara oedd y prif fwyd oedd ar gael.
- Gofynnwch i'r plant ateb trwy godi eu llaw:
 - Pwy gafodd swper neithiwr, neu frechwast bore 'ma?
 - Pwy sydd wedi ymolchi yn yr wythnos ddiwethaf?
 - Pwy sydd wedi cael diod bore 'ma?
 - Pwy sydd â chartref i fynd iddo ar ôl ysgol?

- Esboniwch fod y pethau hyn i gyd yn bethau rydyn ni'n eu cymryd yn ganiataol, ein bod yn gallu eu mwynhau bob dydd heb orfod poeni amdanynt o gwbl.

3. O'r Beibl

Gêm/ eglureb o'r gwahaniaeth rhwng y pethau y mae arnom eu hangen a'r pethau y mae arnom eu heisiau!

Gofynnwch i'r plant sefyll ar eu traed os ydyn nhw'n credu bod arnom **angen** y pethau canlynol i fyw, neu aros ar eu heistedd os mai dim ond **eisiau** y pethau canlynol sydd arnom. (*Bydd rhai yn dibynnu ar ddehongliad y plant, ond nifer yn amlwg*)

Playstation	(Eisiau)
Bwyd	(Angen)
Diod	(Angen)
Teledu	(Eisiau)
Ymolchi	(Angen)
Fferins	(Eisiau)
Cartref	(Angen)
Llyfrau	(Eisiau)
Beic	(Eisiau)
Dŵr glân	(Angen)

- Yn y rhan yma o'r weddi rydyn ni'n gweddio y bydd Duw yn rhoi y pethau y mae arnom wir **angen** amdanynt bob dydd: bwyd, diod, cartref a dillad.

Un ffordd o ddweud o ddweud y rhan yma o'r weddi ydi:

"Rho i ni ddigon o fwyd i'n cadw ni'n fyw am heddiw" (*Beibl.net*)

- Wrth i ni weddio "**Dyros i ni heddiw ein bara beunyddiol**", rydyn ni'n gofyn i Dduw roi'r pethau y mae arnon ni eu hangen bob dydd, ac yn cael ein hatgoffa fod Duw yn gofalu amdanon ni.
- Mae'r weddi'n ein hatgoffa i ddiolch i Dduw am roi bwyd ar ein byrddau, cartref clyd, a dŵr glân i ymolchi bob dydd.
- Mae'r weddi'n ein hatgoffa hefyd i ofyn i Dduw

helpu pobl llai ffodus na ni sydd ddim yn siŵr o ble y daw'r pryd nesaf neu a ydi'r dŵr maen nhw'n ei yfed yn ddiogel, neu sydd heb le i ymolchi.

- Dangoswch y lluniau o blant anghenus/newynog.
- Fe allwn ni ofyn i Dduw ein helpu i feddwl sut y gallwn ni eu helpu hefyd.

4. Rhan 2

- Fe ddwedodd Iesu amdano ei hun:

“Fi ydi'r bara sy'n rhoi bywyd. Fydd pwy bynnag ddaw ata i ddim yn llwgu, a fydd pwy bynnag sy'n credu ynof fi ddim yn sychedu.”

- Doedd Iesu ddim yn meddwl fod eisiau i bobl ddod a'i fwyt! Roedd o'n sôn am angen gwahanol.
- Roedd Iesu yn sôn am y ffordd mae bod yn ffrind iddo yn gallu llenwi pob rhan o'n bywyd â llawenydd arbennig iawn. Dyma mae Cristnogion yn credu sy'n digwydd pan fyddan nhw yn dod yn ddilynwyr, neu'n ffrind i Iesu.
- Mae'r darn yma o'r weddi yn atgoffa Cristnogion am y ffordd y mae bod yn ffrind i Iesu yn llenwi bob rhan o'u bywyd â llawenydd. Mae'n eu helpu i gofio gofyn i Iesu fod gyda nhw ym mhopeth y byddan nhw'n ei wneud y diwrnod hwnnw.

5. Cloi

Wrth weddio “Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol” cawn ein hatgoffa fod Duw yn dda ac yn gofalu amdanon ni trwy roi'r pethau y mae arnon ni eu hangen. Wrth i ni ddiolch i Dduw a gofyn am y pethau y mae arnon ni eu hangen, rydyn ni hefyd yn cael ein hatgoffa am bobl dros y byd sydd heb y pethau rydyn ni'n eu cymryd yn ganiataol. A bydd Cristnogion yn cofio gofyn i Iesu fod gyda nhw ym mhopeth maen nhw'n ei wneud y diwrnod hwnnw.

6. Cân

“Mae fy Nuw gyda fi” (Y cyntaf a'r olaf, Rhif 21)

7. Gweddi

“O Dduw, diolch i Ti am roi cymaint i ni bob dydd. Plis bydd gyda phobl lai ffodus na ni sydd heb fwyd, neu ddŵr glân neu gartref. Diolch i Ti fod y Beibl yn ein dysgu dy fod wedi anfon Iesu Grist i'r byd, fel bod pawb sy'n credu ynddo yn cael llawenydd go iawn a bywyd am byth gyda Ti. Amen.”

Nod

Cyflwyno'r ffaith fod y Beibl yn dweud bod Duw yn maddau i ni, a bod angen i ninnau faddau i eraill.

Bydd angen

- Gair “Dyled” ar gerdyn (neu Powerpoint)
- Arian “Monopoly” (neu argraffu rhai tebyg oddi ar y we)
- Ffôn symudol tegan
- Llyfr ‘Tyrd i Ddathlu’, rhif 29, “Sori Dduw”

1. Darlleniad:

Mathew 6 adnod 12

“Maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.”

(BCN)

“Maddau i ni am bob dyled i ti, yn union fel yr ydyn ni'n maddau i'r rhai sydd mewn dyled i ni.”

(beibl.net)

2. Cyflwyniad

Esbonio “**dyled**” a “**maddau**”

- Gofynnwch i'r plant a ydyn nhw'n cofio i ba ran o Weddi'r Arglwydd yr ydyn ni wedi cyrraedd.

Dyled

- Gofynnwch a oes rhywun yn gwybod beth yw ystyr y gair “Dyled”. (*Dangos y gair ar gerdyn neu PowerPoint*)
- Pwy fuasai'n hoffi cael lot o arian? Gofynnwch i un o'r plant ddod i fyny a rhowch bentwr o arian “Monopoly” iddo/ iddi.
- Gofynnwch i'r plentyn ddychmygu eich bod yn rhoi benthyg pentwr o arian iddo/ iddi. Gofynnwch: “Ar beth fuaset ti'n ei wario?”

Eglurwch mai dim ond rhoi benthyg yr arian rydych chi, felly un diwrnod bydd eisiau yr arian yn ôl. Gofynnwch: “Os byddi di wedi ei wario i gyd, sut wyt ti yn mynd i'w dalu'n ôl i mi? Os na fedri di ei dalu'n ôl, byddi mewn **dyled** i mi!”

Maddau

- Gofynnwch a oes rhywun yn gwybod beth yw ystyr y gair “**Maddau**”.
- Gofynnwch i blentyn arall ddod i fyny.
- “Dychmyga fod gen ti ffôn symudol newydd. (Rhowch y ffôn symudol tegan i'r plentyn) A mod i'n chwarae â'r ffôn. (Cymerwch y ffôn gan y plentyn a dechrau chwarae â'r ffôn gan ei daflu yn yr awyr, yna ei ollwng ar y llawr ac esgus ei fod wedi torri!)

Sut fuaset ti'n teimlo? Blin? Trist?

Ond beth pe bawn i'n dod atat ti a dweud, “Mae'n wir ddrwg gen i. Roeddwn i'n wirion a hunanol, mae'n ddrwg iawn, iawn gen i!” Yna mae gennyti ddau ddewis.

1) Aros yn flin, pwdu a pheidio â bod yn ffrind i mi.

Neu

2) Maddau: derbyn yr ymddiheuriad, dweud “Paid â phoeni, wnawn ni anghofio amdano,” ac aros yn ffrindiau.

Dyna beth ydi maddau.

3. O'r Beibl

- Rhan nesaf Gweddi'r Arglwydd ydi: “**Maddau i ni ein dyledion**”, neu “**Maddau i ni am bob dyled i ti.**”
- Mae Iesu'n dysgu bod angen i ni ofyn i Dduw faddau ein dyled iddo. Ydi hyn yn golygu ein bod ni wedi cael benthyg arian gan Dduw? Nac ydi. Sut, felly, rydyn ni mewn dyled i Dduw?
- Mae Cristnogion yn credu bod Duw wedi creu y byd gwych yma i ni gael byw arno, a bod gan Dduw reolau arbennig iawn am y ffordd orau i fyw. Felly, os byddwn ni'n torri'r rheolau trwy wneud pethau sy'n brifo pobl eraill e.e. dweud celwydd, gwrthod chwarae gyda phlant eraill, ffraeo, ateb Dad neu Mam yn ôl, mae hyn hefyd yn brifo Duw. Mae o fel ein bod ni mewn dyled i Dduw. Mae Duw'n rhoi pethau da i ni, ac rydyn ni yn ei dalu'n ôl weithiau trwy wneud pethau drwg!

- Ond sut fedrwn ni dalu'r ddyled? Mae'r Beibl yn dweud bod Iesu wedi gwneud hynny droson ni ac, os ydyn ni'n dweud "sori" wrth Dduw, bydd Duw yn maddau i ni.

4. Rhan 2

- Ond un peth ydi Duw yn maddau i ni, beth amdanon ni yn maddau i bobl eraill? Dyma beth mae'r darn nesaf yn ei ddweud:

“fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.”

neu

“yn union fel yr ydyn ni'n maddau i'r rhai sydd mewn dyled i ni.”

- Ydi hi'n hawdd i ni faddau i'n ffrindiau? Rydyn ni wedi dysgu bod Duw yn maddau i ni bob tro rydyn ni yn ei adael i lawr, ond mae Iesu hefyd yn ein dysgu ni mor bwysig ydi hi i faddau i bobl eraill sydd wedi ein gadael ni i lawr, wedi ein gwneud ni'n drist neu'n flin.
- Pe bai'ch ffrind gorau yn dwyn eich fferins, fyddai hi'n hawdd i chi faddau iddo/ iddi? Derbyn yr ymddiheuriad? Buasai, efallai? Beth petai'r ffrind yna yn gwneud yr un peth eto? Fyddai hi'n hawdd maddau eto? Buasai, efallai, ond ychydig yn anoddach?
- Faint o weithiau ydych chi i fod i faddau i rywun sy'n eich gadael i lawr o hyd, dro ar ôl tro?
- Gofynnodd Pedr, un o ddisgyblion Iesu, yr un cwestiwn i Iesu rhyw ddiwrnod. Roedd Pedr yn meddwl fod maddau 7 gwaith yn mynd i fod yn anodd, ond eto yn hen ddigon o gyfle! Ond dywedodd Iesu wrtho fod maddau 77 gwaith yn agosach ati!
- Pa mor anodd fuasai maddau i'ch ffrind pe bai'n dwyn eich fferins 77 o weithiau, ond yn ymddiheuro bob tro, ac yn gofyn i chi faddau iddo? Anodd iawn, iawn dwi'n meddwl!
- Ond faint o weithiau rydyn ni'n gwneud pethau y mae angen i rywun faddau i ni amdanyn nhw? Llawer iawn mwy na 77 o weithiau yn siŵr? Ac mae Duw yn dal i faddau i ni!

5. Cloi

Yn y rhan yma o Weddi'r Arglwydd rydyn ni'n gofyn i Dduw faddau i ni, ac hefyd yn gofyn iddo ein helpu ni i faddau i bobl eraill. Rydyn ni'n diolch fod Duw yn gallu maddau cymaint i ni, ac yn gofyn i Dduw ein helpu i faddau dro ar ôl tro i bobl eraill.

6. Cân

“Sori Dduw” (Tyrd i Ddathlu, rhif 29)

7. Gweddi

“Diolch i Ti, Dduw, am ein caru ni gymaint fel dy fod ti'n maddau i ni dro ar ôl tro. Diolch am anfon Iesu i gymryd ein dyled ni, fel ein bod yn gallu bod yn ffrindiau gyda Ti. Plis helpa ni i faddau i bawb sy'n ein siomi neu'n ein brifo. Amen.”

Cyfres ar Weddi

6: Gweddi'r Arglwydd (5)

Nod

Cyflwyno'r ffaith fod Cristnogion yn credu bod Duw yn gallu ein helpu pan fyddwn yn wynebu temtasiynau.

Bydd angen

- Llun "bodybuilder"
- Llun 1: sglodion a salad
- Llun 2: llaw agored a llaw ynghau
- Llun 3: person yn gwneud chwaraeon, a theledu
- Llun 4: sigarét
- Llun 5: codi dwrn ac ysgwyd llaw
- Llyfr 'Y Cyntaf a'r Olaf', rhif 1, "Arglwydd rwyd ti'n ffrind i mi"

NODER: Mae'n hawdd iawn dod o hyd i luniau ar y we. Gellir eu hargraffu neu eu gosod ar PowerPoint i'w dangos i'r plant.

1. Darlleniad: Mathew 6:13

"Ac nac arwain ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag drwg."

"A phaid a'n dwyn i brawf, ond gwared ni rhag yr un drwg."

(BCN)

"Cadw ni rhag syrthio pan fyddwn ni'n cael ein profi, ac achub ni o afael y drwg."

(Beibl.net)

2. Cyflwyniad

- Dyma ein gwasanaeth olaf yn edrych ar Weddi'r Arglwydd.
- Dros yr wythnosau diwethaf rydyn ni wedi meddwl am:
 - Duw yn Dad i ni;
 - parchu enw Duw;
 - gwneud ewyllys Duw;
 - gofyn i Dduw am y pethau y mae arnon ni eu hangen i fyw;
 - gofyn i Dduw am faddeuant, a maddau i eraill.

- Mae darn ola'r weddi yn dweud:

"Ac nac arwain ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag drwg"

neu

"a phaid â'n dwyn i brawf, ond gwared ni rhag yr un drwg" (BCN)

- Gofynnwch "Ydych chi'n cael prawf gan eich athrawon weithiau? Pwy sy'n hoffi cael prawf?"
- Mae'n siŵr nad oes yna lawer ohonon ni'n hoffi prawf. Efallai ein bod yn poeni amdanyn nhw neu'n teimlo'n nerfus. Ond mae prawf yn helpu'ch athrawon i weld pa mor dda rydych chi'n deall y gwaith, ac yn eich helpu chi i ddysgu rhywbeth yn well trwy wneud ymdrech i ddysgu.
- Rydyn ni'n cael ein profi yn ein bywyd bob dydd hefyd, ond mewn ffordd ychydig yn wahanol. Roedd Iesu'n gwybod na fyddai'n hawdd i'w ddilynwyr ei ddilyn bob amser, ac y byddai adegau pan fyddai temtasiwn yn dod. Er enghraifft:
 - pan fydd rhywun yn dweud pethau cas am rywun arall, mae'n demtasiwn cytuno a dweud pethau cas hefyd, neu
 - os byddwch wedi torri rhywbeth a Mam neu Dad yn gofyn beth ddigwyddodd, mae'n demtasiwn dweud celwydd rhag iddyn nhw ddweud y drefn wrthyhch.
- Ar ddiwedd y weddi, felly, mae Iesu'n dysgu pobl sy'n ei ddilyn i ofyn am help Duw i beidio â chael eu temtio i wneud pethau sy'n anghywir.
- Mae rhywbeth diddorol iawn yn digwydd pan fyddwn yn cael ein profi fel hyn, yn cael ein temtio ond yn bod yn gryf ac yn gwrthod rhoi i mewn i demtasiwn.
Dangoswch lun y "bodybuilder"
- Oes gennych chi gyhyrau fel hwn?! Un tro roedd hwn yn blentyn fel chi. Sut gafodd o'r fath gyhyrau?
- Gofynnwch i un neu ddau o'r plant ddod allan i ddangos pa fath o ymarferion corff fyddai'n ein helpu i fagu cyhyrau tebyg i rai'r dyn yn y llun.
- Mae'r dyn yma wedi treulio llawer o amser yn gweithio'n galed yn y gampfa, yn gwneud

ymarferion i gryfhau ei gyhyrau. Mae wedi cymryd llawer iawn o ymdrech iddo edrych fel hyn.

- Efallai na fyddwn ni byth yn edrych fel y dyn yma, ond mae penderfynu dweud “na” wrth gael ein temtio i wneud pethau anghywir, a phenderfynu gwneud beth sy’n iawn, yn ein gwneud ni yn gryf mewn ffordd arall.
- Dangoswch y lluniau a gofyn i’r plant ddewis pa un yw’r gorau:
 - Llun 1:** sglodion a salad
 - Llun 2:** llaw agored a llaw ynghau (rhannu neu gadw i chi eich hun)
 - Llun 3:** person yn gwneud chwaraeon, a theledu
 - Llun 4:** sigarét
 - Llun 5:** codi dwrn ac ysgwyd llaw (ffraeo neu fod yn ffrindiau)
- Mae magu cyhyrau gwahanol a dysgu dewis gwneud y peth iawn gyda’r pethau bach yn ein helpu ni ar hyd ein bywydau, ac yn ein paratoi at yr adegau pan fyddwn ni’n wynebu pethau mawr sy’n ein profi ni.
- Mae’r Beibl yn dweud bod Duw yn gallu ein helpu i ddewis y peth iawn, a dyna pam mae Iesu yn ein dysgu i ddweud y geiriau yma yng Ngweddi’r Arglwydd.

3. Cloi

Mae’r Beibl yn dweud wrthym ni bod Duw gyda ni bob amser; dydi Duw byth yn ein gadael ni. Mae hefyd yn dweud, os byddwn ni’n cael ein temtio i wneud dewisiadau anghywir, y gallwn ofyn i Dduw ein helpu i wneud y dewis cywir, a gwneud beth sy’n iawn. Wrth i ni ddewis gwneud y peth iawn, bydd hyn yn ein helpu i fod yn gryf pan fydd pethau’n anodd.

4. Cân

“Arglwydd rwyt ti’n ffrind i mi bob dydd” (Y Cyntaf a’r Olaf, rhif 1)

5. Gweddi

“Diolch Dduw dy fod Ti ar gael bob amser. Diolch i Ti am dy fod yn dal i fy ngharu ac yn edrych ar fy ôl hyd yn oed pan mae pethau’n anodd. Diolch dy fod Ti’n gallu fy nghadw i’n ddiogel rhag drwg. Plis bydd gyda fi pan fydda i’n cael fy nhemtio a helpa fi i ddewis gwneud beth sy’n iawn. Amen.”

Cyd-weddiio Gweddi’r Arglwydd.

“Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,
Sancteiddier dy enw
Deled dy deyrnas,
Gwneler dy ewyllys,
Megis yn y nef,
Felly ar y ddaear, hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.
A maddau i ni ein dyledion,
Fel y maddeuwn ninnau i’n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
Eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw’r deyrnas,
A’r nerth, a’r gogoniant,
Yn oes oesoedd.
Amen.”